Jude Lane

Bwrlwm gwaith ar gorstiroedd Cymru

Rhwng Nant y Galen a Nant Sebon

Yn rhifyn Gaeaf 2007 y cyfeiriwyd gyntaf yn Natur Cymru at brosiect LIFE ar fynyddoedd y Berwyn a'r Migneint – prosiect sy'n ceisio adfer cyflwr y cynefin gorgors ar yr ucheldiroedd hyn. Mae'r prosiect wedi bod ar y gweill ers tair blynedd bellach, rydym yn carlamu tuag at gyflawni'r targedau. O'r ymdrechion ymarferol i adfer cynefin i weithio gyda'r gymuned leol, mae'r prosiect yn helpu lledaenu'r neges am bwysigrwydd y cynefin prin hwn. ***MIKE MORRIS****, Swyddog ymgynghorol LIFE a warden y Migneint ar ran yr RSPB, sy'n sôn am y cynnydd a wnaed hyd yma.*

Mae gorgors yn un o'r cynefinoedd prinnaf yn y byd. Yng Nghymru rydym yn hynod o ffodus bod ardaloedd sylweddol o orgors yn dal i fodoli, ac mae'r rhain yn effeithio'n fawr ar yr amgylchedd sy'n ein cynnal. Mae'r cynefin yn gartref i blanhigion, pryfed ac adar anghyffredin, yn cynnig tir pori hollbwysig ar gyfer ffermydd yr ucheldir ond mae hefyd yn ffynhonnell allweddol o ddŵr yfed ac yn storfa enfawr o carbon sydd wedi datblygu'n radddol dros filoedd o flynyddoedd. Mae pwysigrwydd gorgorsydd ar gyfer dyn, yn ogystal â byd natur, yn ei gwneud hi'n angenrheidiol i weithredu'n gynt o lawer er mwyn gwarchod y cynefin rhag newidiadau hinsawdd yn y dyfodol.

Tiroedd gwlyb a mawnog sydd ond yn derbyn dŵr ar ffurf dyddodiad (glaw, eira, cymylau, niwl) yw gorgorsydd. Dosbarthiad cyfyngedig iawn sydd ganddynt drwy'r byd, a dim ond mewn gwledydd gyda dyddodiad uchel a thymheredd cymharol isel y gwelir y cynefin. Mae Cymru yn sicr yn un o'r gwledydd hyn!

Pridd llawn dŵr sy'n cynnwys deunydd llysieuol wedi ei gywasgu ac sydd wedi rhannol bydru yw mawn. Mae'r mawn yn ffurfio pan fydd planhigion nodweddiadol, yn enwedig migwyn (*Sphagnum spp.*), yn gwywo ond yn

methu pydru'n llwyr oherwydd bod cymaint o ddŵr ac asidedd yn bresennol. Yn raddol caiff y planhigion hyn eu hymgorffori yn y mawn sy'n cynyddu ar gyfradd o ryw 1mm y flwyddyn.

Yma yng Nghymru mae ein gorgorsydd yn gynefinoedd hen iawn ac mae'r mawn yn fwy na 5m o ddyfnder. Ymhlith y planhigion nodweddiadol a welir yno mae migwyn (*Sphagnum spp.*), grug, grug croesddail *Erica tetralix*, glaswellt y ceirw Trichophorum cespitosum, a phlu'r gweunydd (*Eriophorum spp*). Mae gorgorsydd hefyd yn gynefin pwysig i amrywiaeth o greaduriaid bendigedig, yn cynnwys nifer fawr o drychfilod fel y picellwr pedwar-nod Libellula *quadrimaculata*.

Rydym yn lwcus yng Nghymru bod gennym ardaloedd mor helaeth o'r tirlun godidog a rhyfeddol hwn ar garreg ein drws. Mae tua 12-15% o orgors y byd o fewn y Deyrnas Unedig ac mae rhyw 70,000 hectar (dros 170,000 acer) o'r arwynebedd hwn yma yng Nghymru. Yn anffodus mae cyfran helaeth o orgorsydd Cymru mewn cyflwr gwael a hynny'n bennaf oherwydd effaith dyn ar yr amgylchedd.

Mae'r prosiect LIFE yn canolbwyntio ar ddwy o'r ardaloedd mwyaf o orgors yng Nghymru, sef Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Mynyddoedd Berwyn a De Clwyd ac ACA Migneint-Arenig-Dduallt yng nghanolbarth Cymru. Rhain hefyd yw'r ddwy ardal fwyaf o orgors sy'n dal i fod mewn cyflwr gweddol dda. Ond mae'r safleoedd hyn hefyd dan fygythiad parhaus oherwydd presenoldeb dyn ac os na wnawn ni weithredu nawr mae'n bosib y gallem golli'r cynefin gwych hwn. Wrth gwrs, nid yw popeth y mae dyn yn ei wneud yn niweidiol. Fel hwsmoniaid, mae llawer o ffermwyr a rheolwyr tir yn gweithio er lles eu hanifeiliaid a'r amgylchedd sy'n eu cynnal.

Er mwyn datblygu ymhellach yr awydd sydd gan nifer o ffermwyr i ofalu am y dirwedd y maen nhw'n ei gwerthfawrogi cymaint mae Prosiect LIFE yn gwahodd ffermwyr a tirfeddianwyr o fewn ardal y prosiect i ymweld â Gwarchodfa RSPB Cymru yn Llyn Efyrnwy; yma gallant weld a thrafod y gwaith adfer cynefin sy'n digwydd ar y tir. Rydym yn arbennig o

Fiona Walker

Migwyn *Sphagnum*

awyddus i drafod y gwaith cau ffosydd a hefyd y manteision y gallai'r gwaith rheolaeth gwahanol hwn greu o safbwynt dyfodol ffermydd mynydd, lleihau colledion stoc, cyflwr bywyd gwyllt, ansawdd dŵr a storio carbon.

Gwaith ymarferol

Yn ystod y tri gaeaf diwethaf rydym wedi cau mwy na 60km (37 milltir) o ffosydd o fewn yr ardal o orgors ar Warchodfa Llyn Efyrnwy RSPB Cymru. Mae'r gwaith yma wedi golygu gosod dros 10,000 o argaeau mawn a byrnau grug. Nid o amgylch Llyn Efyrnwy yn unig y mae'r gwaith hwn yn digwydd; mae dros 130km (81 milltir) o ffosydd a grewyd er mwyn plannu coed hefyd wedi cael eu cau ar dir Comisiwn Coedwigaeth Cymru ym Mhenaran, ger y Bala. Yn ogystal â hyn mae dros 1600 hectar (3950 acer) o orgors wedi'u hadfer drwy glirio fforest gonwydd a thynnu coed Sbriws Sitca a llwyni Rhododendron sydd wedi hunan-hadu.

Gyda dau gaeaf arall i fynd mae'r prosiect yn disgwyl cau'r holl ffosydd o amgylch Llyn Efyrnwy. Rydym hefyd yn gobeithio y bydd y prosiect yn llwyddo sicrhau bod draeniau'n cael eu cau ar diroedd eraill, os yw'r perchnogion a'r deiliaid tir yn fodlon i hyn ddigwydd.

RSPB

Cudyll bach • Merlin

Drwy wahodd yr holl ffermwyr, tirfeddianwyr a rheolwyr tir o fewn ardaloedd y prosiect i weld a thrafod y gwaith cau ffosydd ar y warchodfa mae'n gyfle nid yn unig iddynt weld y gwaith yn uniongyrchol, ond yn gyfle hefyd i ni gael adborth ychwanegol ac i ddysgu mwy am farn y gymuned amaethyddol wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. Hyd yn hyn, mae'r adborth wedi bod yn galonogol iawn; bwriedir cynnal diwrnod agored ym mis Mehefin 2009 i arddangos y gwaith er mwyn denu rhagor eto o ffermwyr a tirfeddianwyr.

Cymuned

Dim ond un elfen o brosiect LIFE yw'r gwaith rheolaeth ar y cynefin bregus hwn. Os am warchod gorgors ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol mae'n hanfodol addysgu pob aelod o'n cymdeithas am bwysigrwydd y cynefin. Os na lwyddwn ni ddysgu'n plant a'n hoedolion ynglŷn â rhyfeddod a phwysigrwydd gorgorsydd mae'n bosib mai'r genhedlaeth bresennol fydd yr olaf i weld eu gogoniant. Trwy newid y ffordd y mae pobl yn meddwl am gorsydd mae siawns y gallwn helpu diogelu'r cynefin hwn at y dyfodol.

Felly, yn ogystal â bwrw 'mlaen gyda'r elfennau ymarferol o'r prosiect mae'r tîm yn ceisio cysylltu a phontio gyda chynulleidfa fawr ac amrywiol. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf trefnwyd 36 taith dywys ar gyfer y cyhoedd a grwpiau preifat. Mae'r teithiau yma wedi denu dros 460 o bobl o'r gymuned leol, a hefyd o lefydd pellach i ffwrdd, i ddod i weld yr orgors a'r gwaith adfer ar Warchodfa Llyn Efyrnwy RSPB Cymru. Mae'r math yma o ddigwyddiad yn helpu codi ymwybyddiaeth am y math o weithgaredd sy'n digwydd ar rostiroedd Llyn Efyrnwy ac ar ucheldiroedd eraill. Mae hefyd yn ffordd o gynyddu

Gwaith cau ffosydd ym Mhenaran • Grip-blocking at Penaran

dealltwriaeth pobl am y cynefin prydferth hwn a'i rywogaethau – a'r rhan y mae wedi chwarae yn ein hanes fel pobl.

Mae staff y prosiect hefyd wedi cyflwyno sgyrsiau i 21 grŵp o fewn y gymuned leol, o Gymdeithas y Cerddwyr i Glybiau Garddio a grŵp Age Concern. Mae'r grwpiau hyn wedi amrywio'n fawr o ran oedran yr aelodau a'u gwybodaeth am orgorsydd. O ganlyniad i'r sgyrsiau hyn mae dros 370 o bobl wedi dod i wybod mwy am orgorsydd ac am y prosiect ei hun.

Eisteddfod 2009

Eleni rydym yn cynllunio nifer o weithgareddau i godi ymwybyddiaeth am gynefin gorgors. Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn cael ei chynnal yn y Bala rhwng 1-8fed Awst 2009, yng nghanol ardal y prosiect. Mae'r Bala'n gorwedd rhwng ACA Mynyddoedd Berwyn a De Clwyd ac ACA Migneint-Arenig-Ddu allt ac mae'r Eisteddfod Cenedlaethol eleni, felly, yn gyfle delfrydol i ledaenu'r neges am brosiect LIFE Gorgors Fyw, ac i geisio cyffroi pobl am yr amgylchedd naturiol sydd o'u cwmpas.

Trwy gynllun nawdd 'Natur ein Bro', a drefnir gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Eisteddfod Genedlaethol, fe fydd ysgolion cynradd yn cael ymweld â gorgors Llyn Efyrnwy, ble byddant yn dysgu am y cynefin trawiadol hwn, a'i gyfraniad at eu

diwylliant ac at hanes eu cyndeidiau. Ar sail yr ymweliadau hyn bydd y plant yn cyfleu eu hargraffiadau am y gors mewn gweithdai llenyddol, gan weithio gyda bardd adnabyddus yn eu hysgolion lleol. Fe fydd rhai o'r plant yn darllen eu gwaith yn y Babell Lên yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Dyma gyfle gwych i gysylltu nifer o blant lleol, a'u teuluoedd, gyda'r amgylchedd sy'n rhan mor allweddol o'u treftadaeth. Y nod, drwy ddysgu'r plant am eu gorffennol a'u cysylltiad gyda'r amgylchedd, yw ceisio annog cenhedlaeth newydd i ofalu am fywyd gwyllt ac yn arbennig am orgorsydd.

Nid yw'r cyfan ar gyfer plant! Bydd y prosiect yn annog grŵpiau celf lleol i greu darnau o waith ar gyfer yr Eisteddfod hefyd. Bwriedir cysylltu â chymdeithasau celf a chlybiau ffotograffig gyda'r syniad o greu arddangosfa yn seiliedig ar orgors ucheldir Cymru. Os oes gennych ddawn gelfyddydol neu awydd i gynhyrchu rhywbeth i'w arddangos ar stondin y prosiect, gafaelwch yn eich brws neu'ch camera ac ewch allan i'r mynyddoedd!

Trwy gydol wythnos yr Eisteddfod, fe fydd y prosiect yn cynnig teithiau tywysedig ar y gors i gymaint o bobl â phosib - gyda rhai yn dechrau o Lyn Efyrnwy, ac eraill yn ardal Bala. Trwy gyfrwng y teithiau hyn, a'r digwyddiadau ar y stondin, mae cyfle arbennig i ddangos i gynulleidfa 'Steddfodol bod gorgors Cymru yn rhan bwysig o'n gorffennol a'n dyfodol.

Y dyfodol?

Amcan Project LIFE Gorgors Fyw Cymru yw sicrhau gwelliant pwysig, sylweddol a pharhaol yng nghyflwr gorgorsydd ar Fynyddoedd Berwyn a De Clwyd ac o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig Migneint-Arenig-Dduallt. Er mwyn cyflawni hyn mae angen gwneud llawer iawn o waith adfer dros ganolbarth Cymru, ac er pwysiced yw'r gwaith sy'n digwydd nawr mae'n hanfodol ei fod yn parhau yn y dyfodol. Trwy bontio gyda'r cyhoedd a rhannu gwybodaeth gyda hwy drwy gyfrwng teithiau a sgyrsiau, a thrwy fynychu digwyddiadau fel Steddfod Bala 2009, gobeithiwn adael gwaddol a fydd yn helpu gwarchod y cynefin hudol a hanfodol hwn ar gyfer cenedlaethau i ddod.

*Mae **Mike Morris** yn gweithio i'r RSPB fel Swyddog Ymgynghorol LIFE a Warden Migneint yn Llyn Efyrnwy, Powys.*

Mae Prosiect LIFE Gorgors Fyw yng Nghymru yn brosiect pum mlynedd sy'n anelu at adfer ardaloedd helaeth o orgors yng Nghymru i gyflwr ffafriol. Mae'n bartneriaeth rhwng yr RPSB, Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd (Cymru). Daw 75% o gyllideb £275m y prosiect o raglen LIFENature yr Undeb Ewropeaidd. Os am ragor o wybodaeth am y prosiect cysylltwch gyda'r tîm drwy gyfrwng y wefan, sef **www.gorgorscymru.org**

Gorgors Cymru

Breathing LIFE into bogs

Three years into the LIFE Active Blanket Bog in Wales Project, and work is progressing well. On the practical habitat restoration front more than 60km of drainage grips have been blocked on the RSPB Cymru Lake Vyrnwy Reserve, involving the installation of over 10,000 heather bale and peat dams. An additional 130km of forest planting ditches have been blocked on Forestry Commission land near Bala and 1600 hectares of blanket bog have been restored by the removal of plantation forestry and self-seeding spruce and Rhododendron bushes. But the project isn't all about practical management and restoration. Sharing experience and knowledge and inspiring others about the beauty and value of blanket bog habitat is equally important and the project team have been busy organising events and leading walks for a host of local groups as well as for visitors. Local farmers have also been invited to see and discuss the work on the Vyrnwy reserve and the response has been encouraging. This year's National Eisteddfod at Bala will provide an additional and exciting opportunity to connect children and adults alike with the blanket bogs of the Berwyn and Migneint-Arenig-Dduallt uplands.